Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

# Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr

## Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu

### Cefndir

Fel rhan o ymchwiliad '*Darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr*' y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddull ansoddol o ymgysylltu, yn cynnwys cyfres o grwpiau trafod gydag aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru.

Mae'r papur crynodeb hwn yn seiliedig ar gyfraniadau a wnaed gan aelodau o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod cyfres o ymweliadau safle, trafodaethau grŵp a chyfweliadau ffôn un-i-un rhwng 26 Mai a 28 Mehefin 2022.

### Cyfranwyr

Recriwtiwyd cyfranwyr drwy Travelling Ahead a Sipsiwn-Teithwyr Cymru.

Roedd cyfansoddiad y cyfranwyr yn amrywio, a chafwyd cyfraniadau gan aelodau o bump safle awdurdod lleol a thri safle preifat, mewn pedwar o ranbarthau'r Senedd – Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Canol De Cymru a Dwyrain De Cymru.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

### Fformat

Cynhaliwyd pum ymweliad safle. Roedd fformat y gwaith ymgysylltu yn anffurfiol ac yn gyffelyb i raddau helaeth ar bob safle, ond bod ychydig o amrywiaeth er mwyn bodloni anghenion cymunedau amrywiol. Cynhaliwyd dwy drafodaeth bord gron dros ginio yn y Senedd ac un cyfweliad ffôn, gyda'r pynciau dan sylw yn adlewyrchu i raddau helaeth y rhai yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod ymweliadau safle, eto gyda rhywfaint o amrywiaeth.

Oherwydd natur anffurfiol yr ymgysylltu, dymuniad y Pwyllgor i ymweld â safleoedd, a'r heriau sy'n rhan annatod o geisio cael darlun cynhwysfawr 'ar daith', nid oedd modd trefnu nodiadau gair am air o'r holl drafodaethau.

Daeth y themâu canlynol i'r amlwg yn sgil y trafodaethau.

## Materion cynllunio

Aeth mwyafrif y cyfranwyr sydd wedi'u lleoli ar safleoedd preifat i fanylder wrth drafod materion caniatâd cynllunio. Yn amlwg, roedd profiadau ar draws y rhaglen ymgysylltu yn amrywio, ond, ar y cyfan, roedd y farn am y system gynllunio yn negyddol, yn enwedig wrth drafod ehangu safleoedd.

Rhannodd nifer o gyfranwyr hanesion anecdotaidd o'r heriau a wynebir wrth fynd drwy'r broses gynllunio, gan gynnwys rhwystrau ariannol a diffyg cyngor a chymorth. Mae'r anawsterau a wynebir i sicrhau caniatâd cynllunio yn aml yn golygu bod lle yn brin ar gyfer teuluoedd sy'n tyfu, ac mae hynny'n arwain at broblemau o ran olyniaeth. Aeth un o'r cyfranwyr ymhellach ac esbonio bod materion cynllunio a chael gafael ar dir addas yn treiddio drwy bob agwedd ar y broses, a'i fod yn aml wedi'i wreiddio mewn gwahaniaethu. Er enghraifft, esboniodd y bydd asiantau gwerthu tai yn honni nad oes tir addas ar gael pan fydd teulu sipsiwn yn gwneud ymholiadau

Rhannodd y cyfranwyr y rhesymau y mae awdurdodau lleol wedi'u rhoi i gyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys, ymysg pethau eraill, problemau llifogydd posibl ar ffordd fynediad a allai atal mynediad i'r gwasanaethau brys, a'r terfyn cyflymder ar ffyrdd mynediad tuag at safleoedd.

Eglurodd rhai o'r cyfranwyr fod caniatâd cynllunio, ar brydiau, wedi ennyn ymateb gelyniaethus ymysg rhai trigolion yn yr ardal leol. Roedd hyn yn cynnwys galw aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, *yn frwnt*, ac awgrymu bod cynnydd yn nifer yr achosion o ladrad ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn debygol. Roedd rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gyffredin yn ôl y rhan fwyaf o'r cyfranwyr a drafododd y mater, gan gyfeirio at bortreadau negyddol yn y cyfryngau, ac ystrydebau hir-sefydlog fel rhesymau am hyn.

Cyfeiriodd un cyfrannwr at ddiffyg cysondeb yn y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â materion cynllunio. Fel enghraifft, eglurodd hi fod caniatâd wedi cael ei roi ar gyfer un garafán ac un uned sefydlog, ond bod carafanau ychwanegol ar y safle heb ganiatâd.

## Y berthynas ag awdurdodau lleol

Roedd trafodaethau ar faterion cynllunio yn aml yn cydblethu â materion yn ymwneud â pherthynas cyfranwyr â'u hawdurdod lleol priodol. Nid ydynt yn hollol negyddol (soniodd rhai cyfranwyr am gydberthnasau cadarnhaol â rhai aelodau o staff yr awdurdodau lleol), ond yn aml mae'r heriau o ran ymgysylltu â'r awdurdod lleol yn fynych ac yn amrywiol.

Fel enghraifft, esboniodd un cyfrannwr fod ei hawdurdod lleol wedi gofyn iddi dorri coed ar ei safle. Nid oedd hynny'n broblem o'i rhan hi, ond, fe eglurodd, yr awdurdod lleol a oedd wedi gofyn iddi blannu'r coed yn y lle cyntaf, i sicrhau na ellid gweld y safle o'r ffordd.

Roedd teimlad ymhlith llawer o gyfranwyr nad oedd eu hawdurdod lleol yn sensitif i anghenion unigryw eu cymunedau. Roeddent yn beirniadu'r awdurdod lleol am beidio â gwrando, yn enwedig mewn perthynas â materion cynnal a chadw safleoedd. Er enghraifft, esboniodd un cyfrannwr fod adnoddau yn aml yn cael eu defnyddio ar bethau diangen, megis gwaith ailwynebu ffordd yn ddiweddar a oedd yn ddiangen yn ôl y gymuned. Roedd eraill yn teimlo y gall awdurdodau lleol fod yn anghyson yn aml o ran eu hymdriniaeth o faterion, a gall hyn greu anawsterau o fewn cymunedau.

Eglurodd cyfrannwr sydd ar safle yng ngogledd Cymru fod ganddyn nhw berthynas anodd iawn gyda'u hawdurdod lleol. Gwnaethant egluro bod yr awdurdod lleol wedi talu cwmni diogelwch preifat i weithredu fel cyswllt, sef sefyllfa a ddisgrifiwyd ganddynt fel *"rhoi'r broblem ar gontract allanol."*

## Ymgynghori â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae'r berthynas heriol sydd gan lawer o'r cyfranwyr â'u hawdurdodau lleol yn deillio, yn rhannol, o fethiant yr awdurdodau lleol i gyfathrebu'n effeithiol â chymunedau, yn ôl cyfranwyr.

Eglurodd rhai cyfranwyr y byddent yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ystyrlon am y safleoedd y maen nhw'n byw arnynt. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddylanwadu ar gynllun y safle a chynlluniau adnewyddu. Fel enghraifft, esboniodd un cyfranogwr y gofynnwyd iddynt a hoffent gael atig yn eu hystafell ddydd. Gwnaethant gytuno i gael un, ond mae'r atig dan glo ers hynny ac nid oes modd i'r rhai sydd ar y safle ei defnyddio – y cyngor sy'n cadw'r allweddi. Eglurwyd hefyd nad ydynt wedi cael caniatâd i wneud addasiadau i'w hystafelloedd dydd ac nad ydynt yn cael eu trin fel eu cartrefi eu hunain.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn cytuno bod ymgysylltu cynhwysol â chymunedau yn bwysig, ond y dylid dilyn hyn gan gamau gweithredu clir a gaiff eu cyfathrebu'n dda. Disgrifiodd rhai deimlad o gael eu '*gadael yn y tywyllwch*' ar ôl ymgynghoriad, gyda llawer yn teimlo bod y broses wedi eu dadrithio.

## Lleoliad a chyflwr y safleoedd

Roedd lleoliadau a chyflwr safleoedd yn thema a oedd yn treiddio drwy lawer o'r drafodaeth ar draws y rhaglen ymgysylltu.

Yn ôl rhai cyfranogwyr, mae eu safle, a'r mynediad iddo, yn beryglus, gydag eraill yn egluro bod eu safle yn anaddas i'w ddiben ac yn niweidiol i iechyd a llesiant y trigolion.

Rhannwyd hanesion anecdotaidd amrywiol a niferus am ddiffyg atgyweirio, gyda ffotograffau yn aml gan y cyfranwyr i gefnogi hyn, neu roedd Aelodau o'r Pwyllgor wedi eu gweld drostynt eu hunain yn ystod ymweliadau â safleoedd. Roedd hyn yn cynnwys nid yn unig ddirywiad yn y cyfleusterau cyffredin presennol, sydd heb gael eu hadnewyddu ers degawdau, ond hefyd ddiffyg llwyr o ran cyfleusterau megis mannau chwarae ar gyfer y plant. Soniodd eraill am broblemau gyda lleiniau anwastad, diffyg llwybrau troed, draeniau wedi'u blocio, plâu o lygod mawr ac ystafelloedd ymolchi sydd wedi llwydo.

Pan gynigir unrhyw fesurau i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynnal a chadw, esboniodd llawer o gyfranwyr ei bod yn cymryd llawer o amser i unrhyw gamau gael eu cymryd pan gaiff yr awdurdod lleol neu'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r safle wybod am y materion hynny. Esboniodd un cyfranogwr ei bod wedi cael gwybod, yn ystod cyfarfod gyda'i hawdurdod lleol, nad oes gorfodaeth arno i wneud gwaith cynnal a chadw ar safle o fewn yr un amser â'r hyn ydyw ar dai sy'n eiddo i'r awdurdod. Roedd hefyd yn disgrifio'r gwaith fel *y safon gwaethaf o waith adeiladu y gallech ei ddychmygu*. Roedd hyn yn adlewyrchu profiad llawer o'r cyfranwyr eraill ledled y rhaglen ymgysylltu.

Wrth drafod ym mha ffyrdd y byddent am i'w safleoedd gael eu gwella, eglurodd rhai cyfranwyr y byddent yn hoffi bod yn agos at groesfan sebra, ysgol, amwynderau fel siopau, a pharc. Pwysleisiodd rhai cyfranwyr hefyd yr angen i gerbydau brys allu cael mynediad i'w safle.

> "If there was a fire on Castle Quarry, the whole of the quarry would just go up in flames because they've put people together so close there's some people that can't even park their car on their slab."

### Ymwybyddiaeth ddiwylliannol

Mae'r ffaith bod llawer o'r safleoedd awdurdodau lleol mwy, yn arbennig, dan eu sang yn aml yn golygu bod diffyg preifatrwydd ac, ar ben hynny, fod y berthynas bigog rhwng rhai teuluoedd a/neu breswylwyr yn esgor ar amgylchedd gelyniaethus ac weithiau beryglus.

Rhoddodd un cyfrannwr enghraifft o safle a fwriadwyd ar gyfer Teithwyr Gwyddelig, ond caniatawyd i Deithwyr Seisnig fyw ar y safle hefyd. Creodd hyn amgylchedd a ddisgrifiwyd gan un cyfrannwr fel *"anniogel"*.

Eglurodd rhai cyfranwyr ei bod yn beth cyffredin i awdurdodau drin teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn yr un modd, heb fawr o ystyriaeth yn yml, o arlliwiau diwylliannol a gofynion unigryw'r cymunedau gwahanol. Esboniodd un cyfrannwr sydd wedi'i leoli ar safle awdurdod lleol y bydd awdurdodau lleol yn aml yn cymhwyso safonau a fwriadwyd ar gyfer tai, i garafanau a threlar carafán, gan anwybyddu, i bob pwrpas, anghenion unigryw'r cymunedau hyn.

Esboniodd rhai cyfranwyr y gallai rhai cymunedau a'u ffordd o fyw esblygu gydag amser, gan gynnwys penderfyniad rhywun, er enghraifft, i symud i mewn i dŷ, ond dylid parchu a chefnogi penderfyniad y rhai sy'n dewis parhau i fyw bywyd traddodiadol.

"We're treated like second class citizens. I left my site because of overcrowding because at one point, there was me, my mam and my brother on one slab - there wasn't anywhere for us to go. So now I live in a house. I had to leave what I knew, what I grew up doing, to have a better quality of life for me, my husband and my children."